**MEMORANDWM CYDSYNIAD OFFERYN STATUDOL**

**RHEOLIADAU DEDDF YNNI 2023 (DIWYGIADAU CANLYNIADOL) 2024**

1. Gosodir y Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol hwn o dan Reol Sefydlog ("RhS") 30A.2. Mae RhS30A yn rhagnodi bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Offeryn Statudol gerbron Senedd Cymru os yw un o Offerynnau Statudol y DU yn gwneud darpariaeth o ran Cymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru.

2. Mae Rheoliadau Deddf Ynni 2023 (Diwygiadau Canlyniadol) 2024 ("y Rheoliadau") yn dilyn y weithdrefn gadarnhaol ac fe'u gosodwyd gerbron Senedd y DU ar 13 Mai 2024. Maent i'w gweld yma:

http://www.legislation.gov.uk/id/ukdsi/2024/9780348261448

3. Nid oes gofyniad statudol i Senedd Cymru gydsynio'r Rheoliadau.

**Crynodeb o'r Offeryn a'i amcan (*gofyniad RhS 30A.4(i)*)**

4. Amcan yr offeryn yw gwneud y newidiadau canlyniadol sy'n angenrheidiol i sefydlu Gweithredwr Cenedlaethol y System Ynni (NESO) ac i ddiwygio'r modd y rheolir codau'r diwydiant nwy a thrydan. Cafodd y fframwaith deddfwriaethol ar gyfer y diwygiadau hyn ei greu gan Ddeddf Ynni 2023, ac mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau canlyniadol i adlewyrchu'r newidiadau hyn ym mhob rhan o'r llyfr statud.

5. Mae'r Rheoliadau yn gwneud diwygiadau canlyniadol sy'n codi o Ddeddf Ynni 2023. Mae Deddf Ynni 2023 yn gwneud darpariaeth ynghylch cynhyrchu ynni a diogelu'r cyflenwad ynni, rheoleiddio'r farchnad ynni a sefydlu corfforaeth gyhoeddus annibynnol fydd yn gyfrifol am gynllunio rhwydweithiau trydan a nwy Prydain a gweithredu'r system drydan (NESO). Mae'r Rheoliadau'n egluro pa rai o bwerau, hawliau a dyletswyddau Gweithredwr Systemau Trydan y Grid Cenedlaethol a National Gas Transmission y bydd NESO yn eu hetifeddu neu ddim yn eu hetifeddu. Ar hyn o bryd mae llawer o gyfeiriadau at ddeiliaid trwyddedau ar draws y llyfr statud. Mae creu NESO a rhoi ei drwyddedau yn golygu bod angen gwneud sawl diwygiad canlyniadol i ddiweddaru'r cyfeiriadau hyn. Yn unol â'r amcanion hyn, mae'r Rheoliadau'n diwygio Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016.

6. Terfynau tiriogaethol y Rheoliadau hyn yw Cymru a Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Y darpariaethau sydd i'w gwneud gan yr Offeryn y ceisir cydsyniad ar ei gyfer (*Gofyniad RhS30A.4(ii)*)**

7. Mae'r darpariaethau y ceisir cydsyniad ar eu cyfer wedi'u cynnwys yn Rheoliad 22 o Ran 3 ac yn diwygio 6(10)(d) o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae adran 6 o Ddeddf 2016 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus yng Nghymru gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau i hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau. Mae is-adran 10 yn ymdrin â'r diffiniad o ymgymerwr statudol ac mae 10(d) yn cynnwys cludwyr nwy o fewn y diffiniad hwnnw.

8. Mae rheoliad 22 yn dileu is-adran (d) trawsgludydd nwy (o fewn ystyr Rhan 1 o Ddeddf Nwy 1986 (c. 44) ac yn rhoi yn ei le (d) deiliad trwydded o dan adran 7 neu 7AA o Ddeddf Nwy 1986. Mae'r newid hwn yn ganlyniad i sefydlu Gweithredwr Cenedlaethol newydd y Systemau Ynni i ddiweddaru diffiniadau o ddeiliaid trwydded ar draws y llyfr statud.

9. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau a ddisgrifir ym mharagraffau 7 a 8 uchod yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Senedd Cymru at ddibenion Rheol Sefydlog 30A.

**Pam y mae'n briodol i'r RhS wneud y ddarpariaeth hon *(Gofyniad RhS30A.4(iii))***

10. Fy marn i yw ei bod yn briodol ymdrin â'r ddarpariaeth hon yn yr Offeryn hwn gan mai dyna'r cyfrwng deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i wneud y darpariaethau hyn yn gymwys yng Nghymru. Nid yw'r newid yn gynhennus na thechnegol ei natur ac mae'n gwneud un newid canlyniadol i ddeddfwriaeth sylfaenol gyda'r nod o egluro pa rai o bwerau, hawliau a dyletswyddau ESO'r Grid Cenedlaethol a National Gas Transmission y bydd NESO yn eu hetifeddu neu ddim yn eu hetifeddu fel y gellir dechrau'r trefniadau ar gyfer NESO.

11. Mae'r UKSI hwn yn cael ei wneud o dan adran 330 o Ddeddf Ynni 2023 sy'n bwerau nad oedd Senedd Cymru wedi cydsynio iddynt. Er hynny, nawr bod y darpariaethau hyn ar y llyfr statud rydym wedi ymrwymo i sicrhau eu bod yn cael eu harfer mewn ffordd gyfrifol.

12. Mae'r diwygiad a gynhwysir yn y Rheoliadau yn cael ei wneud mewn perthynas ag ymgymerwyr statudol yn Neddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, sy'n awdurdodau a gadwyd yn ôl a phe bai'r newid yn cael ei weithredu gan Fil Senedd Cymru byddai gofyn i Weinidog y Goron gydsynio iddo. Mae'r Rheoliadau'n cael eu gwneud gan ddefnyddio pŵer Ysgrifennydd Gwladol yn unig sydd wedi'i gynnwys yn y Ddeddf Ynni. Nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw bŵer cyfatebol yn y Ddeddf honno i wneud y newid.

## Goblygiadau ariannol

13. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol yng Nghymru o ran cydsynio'r darpariaethau yn yr Offeryn Statudol.

**Jeremy Miles AS**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a'r Gymraeg**
***14 Mai 2024***